

Mynychu eich grŵp ymgynghori trwy fideo

Mae galw fideo yn gyfleus ac yn hawdd ei ddefnyddio

Yn hytrach na theithio i'ch ymgynghoriad grŵp, gallwch fynychu ar-lein, gan ddefnyddio'r ddolen isod.

Bydd y gwasanaeth yn eich gweld yn yr ardal aros ar-lein, a bydd yr ymgynghoriad yn dechrau fel y trefnwyd.

Nid oes angen creu cyfrif.

Mae galwadau fideo ymgynghori grŵp yn ddiogel ac mae eich preifatrwydd wedi'i ddiogelu.



Dyma'r ddolen sydd ei hangen arnoch

Ewch i:

Beth sydd ei angen arnaf i ymuno ag ymgynghoriad grŵp?

- ✓ **Dyfais** ar gyfer gwneud fideoalwad, e.e. ffôn clyfar, tabled neu gyfrifiadur gyda camera a meicroffon (yn aml wedi'u cynnwys mewn gliniaduron).
- ✓ **Cysylltiad dibynadwy â'r rhyngwyd** (gwifrau, WiFi neu ddata symudol). Os gallwch wyllo fideo ar-lein, dylech chi allu gwneud fideoalwad.
- ✓ **Ardal breifat, wedi'i goleuo'n dda** ar gyfer eich ymgynghoriad, lle na fydd unrhyw beth yn torri ar eich traws.



Defnyddiwch y fersiwn diweddar o **Chrome**, **Safari** neu **Edge** i gael y profiad gorau yn ystod y galwad.



Google Chrome
Windows, Android,
MacOS



Apple Safari
MacOS, iOS,
iPadOS



Microsoft Edge
Windows

Beth sydd angen i mi ei wybod?

A yw'n ddiogel / gyfrinachol?

Dim ond eich darparwr gwasanaeth fydd yn gweld eich manylion cyswllt.

Nid yw eich gwybodaeth yn cael ei storio.

Gall pawb sy'n cymryd rhan weld a chlywed ei gilydd oni bai bod eu camera neu feicroffon i ffwrdd.

Faint mae fideoalwad yn ei gostio?

Mae'r fideoalwad yn rhad ac am ddim heblaw am eich defnydd o'r rhyngwyd.

Awgrym! Os gallwch chi, cysylltwch â rhwydwaith Wi-Fi er mwyn osgoi defnyddio'ch data symudol.

Faint o ddata rhyngwyd y byddaf yn ei ddefnyddio?

Dydy'r alwad fideo ddim yn defnyddio data pan fyddwch chi'n aros am rywun i ymuno.


Pan fydd yr alwad yn cysylltu, mae'n defnyddio'r un faint o ddata a Skype® neu Facetime®.

Sut ydw i'n ymuno ag ymgynghoriad grŵp?

1. Agorwch borwr a nodwch ddolen y gwasanaeth yn y bar cyfeiriad (nid y blwch chwilio).
2. Os gofynnir i chi, gadewch i'r porwr gael mynediad i'ch camera a'ch meicroffon.
3. Dilynwch y cyfarwyddiadau ar y sgrin, gan ddewis y botwm **Cam Nesaf (Next Step)** i symud ymlaen (efallai y bydd angen i chi sgrolio i'w weld).
4. Dewiswch y botwm **I Mewn i'r Ardal Aros (Enter Waiting Area)** i ymuno â'r ymgynghoriad grŵp.

Enter Waiting Area

- Mae eich meicroffon yn cael ei dewi ar y dechrau. Gallwch ei ddad-dewi pan fydd angen i chi trwy ddefnyddio'r rheolaethau galwadau.
- Os yw'r rheolyddion wedi'u cuddio, cliciwch neu tapiwch i'w gweld.



- Mae'r rheolaethau galwadau hefyd yn gadael i chi oedi'ch fideo, codi llaw rithwir pan hoffech chi gyfrannu, rhoi cynnig ar wahanol gynlluniau, neu newid i'r modd sgrin lawn.
- Mewn rhai ymgynghoriadau grŵp efallai y byddwch yn gweld botwm **Sgwrs (Chat)** yn yr ardal rheolaethau

galwadau. Gallwch ddefnyddio hwn i anfon negeseuon i'r grŵp neu ymateb i negeseuon y mae'r darparwr yn eu hanfon atoch.

- Efallai y bydd eich darparwr gwasanaeth yn rhannu'r grŵp yn grwpiau llai gan ddefnyddio ystafelloedd trafod. Mae'r rheolaethau galwadau yn parhau i fod ar gael i chi, hyd yn oed tra'ch bod mewn ystafell ymneilltuo.
- I adael y sesiwn, dewiswch y botwm **Gadael yr alwad (Leave the call)** ar ochr dde eithaf y rheolaethau.



Beth os nad yw rhywbeth yn gweithio?

Ymweld <https://wales.nhs.attendanywhere.com/troubleshooting>

Rhagor o wybodaeth